



**QUALIFIED FOR
THE FUTURE**



Ymchwil gyda Cholegau Addysg Bellach ar y Raddfa Graddau TGAU

Crynodeb

Medi 2022



Cyflwyniad

Cefndir

Fel rhan o'r broses o ail-lunio cymwysterau i gefnogi'r Cwricwlwm newydd i Gymru, roedd Cymwysterau Cymru wedi cynnal adolygiad o'r raddfa graddio TGAU. Mae TGAU sydd wedi'u cymeradwyo yn erbyn ein meini prawf yng Nghymru yn cael eu graddio gan ddefnyddio'r model A*-G. Ar ôl cynnal archwiliad cychwynnol, roedd yr adolygiad wedi canolbwyntio ar gyfuno graddau F a G. Tri rheswm allweddol oedd wrth wraidd y penderfyniad hwn:

- y posibilrwydd nad oes angen gwahaniaethu rhwng F a G mwyach o ystyried y ganran uchel o raddau F ac uwch a ddyfernir (Llywodraeth Cymru, 2021)
- y posibilrwydd y byddai gostwng nifer y graddau lefel un yn cynyddu cywirdeb y dosbarthiad
- pryder bod graddau TGAU lefel un yn cael eu camddeall a'u gweld fel methiant, yn hytrach na fel graddau pasio lefel un

Yn y cyd-destun hwn, teimlwyd y byddai angen ail-lunio gradd F os byddai'n dod yn radd derfynol ar y raddfa.

Graddfa Graddio TGAU presennol

A*	A	B	C	D	E	F	G
Lefel 2				Lefel 1			

Amcanion ymchwil

Er mwyn dod i benderfyniad ar gynnig newid i'r raddfa graddio, roedd tîm ymchwil Cymwysterau Cymru wedi cynnal prosiect ymchwil ansoddol ar raddfa fach i ddeall sut y caiff graddau F a G eu defnyddio (a'u hystyried) gan randdeiliaid ym myd addysg ôl 16. Roedd Cymwysterau Cymru yn teimlo y byddai cael mwy o wybodaeth ar y modd y defnyddir graddau TGAU yn eu helpu i ddod i benderfyniad a fyddai llunio graddfa graddau TGAU nad yw'n gwahaniaethu rhwng graddau F a G yn addas wrth reoli'r broses o drosglwyddo i fyd addysg ôl-16. Roedd yr ymchwil yn canolbwyntio ar gasglu safbwyntiau cyfranogwyr o golegau addysg bellach (AB) ac edrychodd ar y cwestiynau canlynol:

- Sut mae colegau yn defnyddio graddau F a G?
- Sut mae colegau'n ystyried graddau F a G?
- Oes angen newid y raddfa graddio?
- Beth fyddai effaith posibl cyfuno graddau F a G?

Dylunio ymchwil

Roedd Cymwysterau Cymru wedi recriwtio cyfranogwyr mewn Gweithdy Ansawdd a Chwricwlwm gyda chynrychiolwyr o golegau ledled Cymru. Gofynnwyd i'r aelodau a allai'r tîm ymchwil gysylltu â nhw i drafod cymryd rhan yn yr ymchwil. Anfonwyd e-bost yn amlinellu'r gwaith ymchwil at bob cynrychiolydd.

Cynhaliwyd cyfanswm o ddeuddeg cyfweiliad lled-strwythuredig dros Microsoft Teams. Roedd y cyfranogwyr yn amrywio o ran eu rolau a'u cyfrifoldebau, yn amrywio o Is-Benaethiaid i Benaethiaid Adran. Roedd nifer y cyfranogwyr ym mhob cyfweiliad yn amrywio o un i bedwar cyfranogwr. Roedd hyd y trafodaethau'n amrywio, o hanner awr i awr, ac roeddent yn cael eu recordio i'w dadansoddi.

Mae'r adroddiad yn crynhoi safbwyntiau amrywiaeth o aelodau staff o bob coleg yng Nghymru. Fodd bynnag, dylid nodi rhai o'r cyfyngiadau. Er enghraifft, nid yw safbwyntiau'r cyfranogwyr o reidrwydd yn cynrychioli safbwyntiau cyffredinol y coleg. Oherwydd prinder capasiti ac amser i gynnal y gwaith hwn, mae'r ymchwil hefyd yn hepgor safbwyntiau pobl o fathau gwahanol o ganolfannau a oedd wedi ymateb, yn ogystal â safbwyntiau dysgwyr.

Prif ganfyddiadau

Defnydd presennol graddau lefel un

Roedd y rhan fwyaf o'r bobl a gafodd eu holi wedi dweud bod dysgwyr â phroffil o raddau F a G yn aml yn cael eu rhoi yn yr un grŵp pan fyddan nhw'n cofrestru ar gyfer eu prif raglen astudio. Mae'r dysgwyr hyn yn tueddu i gofrestru ar gyfer darpariaeth lefel mynediad neu lefel un. Yn gyffredinol, mae dysgwyr sy'n cael graddau F a G rhan fwyaf hefyd yn cael eu rhoi yn yr un grŵp wrth gofrestru ar gyfer yr elfen sgiliau o'u rhaglen ddysgu. Fodd bynnag, disgrifiodd ambell i goleg ddau lwybr penodol e.e.

- gall dysgwyr sy'n cyrraedd graddau F yn bennaf gofrestru ar gyfer rhaglen dwy flynedd i ailsefyll TGAU
- gall dysgwyr sy'n cyrraedd graddau C fod yn fwy tebygol o gofrestru ar gyfer rhaglen tair blynedd

Mewn coleg arall, mae dysgwyr yn debygol o gofrestru ar gyfer darpariaeth wahanol:

- mae gradd F yn rhoi mynediad ar gyfer Skills Forward
- mae gradd G yn rhoi mynediad at gwrs Agored Cymru neu ddsbarthiadau llythrennedd a rhifedd mewnol

Roedd y darlun yn fwy amrywiol pan ofynnwyd i gymharu'r broses o gofrestru dysgwyr oedd â graddau D neu E i'w rhaglen astudio. Caiff rhai dysgwyr eu rhoi yn yr un grŵp ar gyfer rhaglen lefel un neu lefel dau, ond gyda dysgwyr eraill, roedd gradd E yn rhoi mynediad at gysiau lefel un, ac roedd graddau D yn rhoi mynediad at gysiau lefel dau. Yn nodedig, roedd y rhan fwyaf

wedi tynnu sylw at y ffaith y byddai llwybrau mynediad yn dibynnu ar broffil cyffredinol graddau ar draws gwahanol bynciau.

Wrth gofrestru dysgwyr ar yr elfen sgiliau o'u rhaglen ddysgu, mae rhai colegau'n gwahaniaethu rhwng graddau E a D. Fel arfer, mae graddau E yn rhoi mynediad i raglen ddwy flynedd i ailsefyll TGAU, tra bod graddau D yn rhoi mynediad i raglen un flwyddyn i ailsefyll TGAU. Mae colegau eraill yn tueddu rhoi dysgwyr yn yr un grŵp.

Mae'n bwysig nodi bod y rhai a gafodd eu holi wedi egluro mai un dangosydd yn unig yw graddau TGAU a defnyddir i benderfynu ar y rhaglen fwyaf addas i ddysgwyr. Roedd llawer o gyfranogwyr wedi nodi y caiff sgoriau asesiadau cychwynnol (sy'n cael eu cynnal ar ôl cofrestru fel arfer) eu defnyddio i benderfynu ar y ddarpariaeth briodol. Mae dangosyddion eraill yn cynnwys anghenion dysgu ychwanegol (ADY), pryderon iechyd meddwl, neu amgylchiadau.

Roedd cyfranogwyr hefyd wedi nodi'r defnydd ychwanegol o raddau F a G, gan gynnwys:

- mapio cynnydd dysgwyr
- defnyddio'u graddau i gyfrifo'u targedau
- eu defnyddio fel tystiolaeth i gael cymorth pellach e.e., mae un coleg yn penodi cynghorwyr sgiliau astudio i ddysgwyr sydd wedi' cael graddau G

Y ffordd y caiff graddau F a G eu hystyried

Dywedodd y rhan fwyaf o'r bobl a gafodd eu holi nad ydynt yn gweld gwahaniaeth rhwng dysgwyr sydd â phroffil o raddau F a dysgwyr sydd â phroffil o raddau G. Dywedodd rhai nad ydynt yn gwahaniaethu rhwng dysgwyr oherwydd nad oes gwahaniaeth mawr yn eu gallu. Fodd bynnag, roeddent yn teimlo y gall gradd G fod yn ddefnyddiol i ddangos ffactorau gwahanol i allu yn unig, e.e., gall ffactorau gwahanol gynnwys ADY, presenoldeb neu faterion yn ymwneud ag ymddygiad.

Roedd y rhai a gafodd eu holi yn rhanedig o ran eu safbwyntiau ar werthoedd graddau F a G. Roedd tua hanner ohonynt o'r farn na roddir gwerth ar raddau F a G gan nodi bod eu gwerth yn isel iawn. Ar y llaw arall, roedd eraill yn pwysleisio eu bod yn ddefnyddiol at ddibenion fel:

- meini prawf mynediad
- arwydd o ymrwymiad dysgwyr
- arwydd y gallai fod angen rhoi cymorth pellach

Roedd y rhan fwyaf o'r bobl a gafodd eu holi wedi nodi bod dysgwyr yn edrych ar raddau F a G mewn ffordd negyddol. Mae'n debyg bod dysgwyr yn gweld graddau F a G fel methiant, neu'n credu nad ydynt yn cyfrif fel cymhwyster o gwbl. Roedd rhai wedi tynnu sylw ar effaith negyddol graddau o'r faith ar hyder dysgwyr.

Fodd bynnag, roedd y rhai a gafodd eu holi wedi nodi y gall safbwyntiau dysgwyr amrywio yn dibynnu ar y cyd-destun. Er enghraifft, gall gradd F fod yn rhywbeth cadarnhaol os yw'n dangos

cynnydd. Yn unol â hynny, roedd ymdeimlad y gall rhai grwpiau o ddysgwyr werthfawrogi gradd F neu G, fel y rhai sydd wedi cofrestru ar gyfer cyrsiau Sgiliau Byw'n Annibynnol (ILS). Gallai fod yn ddefnyddiol gwneud gwaith pellach ar safbwyntiau dysgwyr os bydd penderfyniad yn cael ei wneud i newid y raddfa.

Effeithiau cyfuno graddau F a G

Roedd y rhai a gafodd eu holi wedi codi sawl effaith bosibl cyfuno graddau F a G. Er enghraifft, gall gael effaith gadarnhaol ar y ffordd y mae dysgwyr yn ystyried eu graddau, a rhoi hwb iddynt fynd ati i'w gwella. Un rheswm a godwyd oedd y byddau cyfuno'r ddwy radd yn golygu bod y radd yn agosach at ffin E neu C. Roedd ymdeimlad hefyd y byddai dysgwyr yn teimlo'n llai ynysig o gael eu cofrestru ar yr un rhaglen.

Fodd bynnag, roedd rhai wedi nodi y gall y newid hwn effeithio'n negyddol ar rai grwpiau o ddysgwyr. Mae hyn yn cynnwys y rhai a fyddai'n cael gradd F, neu ddysgwyr sy'n awyddus i ddilyn darpariaeth ILS. Nodwyd y gall cyfuno'r ddwy radd ei gwneud yn anodd i ddysgwyr fesur cynnydd yn eu graddau.

Roedd rhai o'r bobl a gafodd eu holi wedi dweud nad ydynt yn rhagweld y bydd cyfuno'r ddwy radd yn effeithio ar golegau. Fodd bynnag, roedd y rhai a oedd wedi tynnu sylw at lwybrau dysgu gwahanol ar gyfer dysgwyr gyda gradd F neu G yn rhagweld y bydd cyfuno'r ddwy radd yn cael effaith. Roeddent wedi tynnu sylw at y posibilrwydd y gallai llai o ddysgwyr gofrestru ar gyfer y cyrsiau sydd ar gael, neu y bydd mwy o ddysgwyr yn cofrestru ar gyfer cwrs penodol, gan arwain at broblemau staffio. Hefyd, noddodd un person y gallai cyfuno'r ddwy radd ei gwneud yn anodd cymharu canlyniadau'r dysgwyr o ran cymwysterau ehangach wrth adolygu'u proffil.

Fodd bynnag, roedd ymdeimlad y gallai cyfuno'r ddwy radd gael effaith gadarnhaol ar athrawon. Gallai athrawon helpu dysgwyr sydd â lefelau gallu tebyg ar y cyd pe bai dysgwyr â graddau F a G yn cael eu cofrestru ar yr un rhaglen astudio. Nodwyd hefyd y gall y gwahaniaethau cyfyngedig sydd wedi'u canfod rhwng graddau F a G olygu y byddai cyfuno'r ddwy radd yn gwella dealltwriaeth staff y ganolfan.

Ail-labelu'r radd gyfunol

Roedd llawer o gyfranogwyr wedi edrych ar effeithiau ail-labelu'r radd gyfunol. Roedd rhai yn teimlo y gallai ail-labelu'r graddau, er enghraifft, yn 'pàs' (neu derm tebyg), olygu y bydd dysgwyr yn rhoi mwy o bwysau ar eu cymwysterau, a fydd yn gwella'u cymhelliant a'u hunanhyder. Roedd eraill wedi dweud y gallai ail-labelu'r graddau amlygu lefel gallu'r dysgwyr a nodi'r llwybrau mwyaf priodol iddynt. Roedd cyfranogwyr hefyd wedi nodi y gallai'r radd gael ei hail-labelu mewn ffordd sy'n hwyluso'r gwaith o gymharu ar draws y cynnig cymwysterau. Gallai ail-labelu wneud lefel gallu dysgwyr yn gliriach i randdeiliaid hefyd.

Fodd bynnag, roedd rhai a gafodd eu holi wedi egluro na fydd cyfuno graddau F a G yn ddigonol o ran herio canfyddiadau negyddol oherwydd y byddai gradd D neu E hefyd yn cael eu gweld fel methiant. Roedd eraill wedi dweud y gallai ail-enwi'r radd gyfunol newydd achosi dryswch ymhlith

rhanddeiliaid am fod pob gradd yn cael eu gweld yn bàs i ryw raddau. Gallai hefyd achosi dryswch o ystyried bod rhanddeiliaid yn ystyried mai C yw'r marc pasio. Yn unol â hynny, roedd rhai yn teimlo y byddai enwi'r radd gyfunol yn 'pàs lefel un' yn cysylltu'r radd gyda chymwysterau galwedigaethol lefel un. Roedd eraill wedi nodi y byddai peidio â dilyn trefn y wyddor o ran y raddfa heb gyflwyno newidiadau pellach yn creu ail haen o raddau.

Newid ffiniau graddau

Roedd effeithiau posibl newid ffiniau'r graddau hefyd wedi'u codi, yn benodol, er effaith o gynyddu nifer y marciau sydd eu hangen i gael gradd G. Roedd y rhai a gafodd eu holi wedi pwysleisio y byddai llai o ddysgwyr yn cael cymhwyster TGAU ac y byddai hyn yn cael effaith ar gynnydd y dysgwyr, yr addysgu a'r dysgu ac ar ddata perfformiad ysgolion. Roedd pryderon eraill wedi'u codi am effeithiau diwygio'r trothwy ar gyfer gradd C neu gynyddu'r marciau rhwng D a C. Nodwyd y gallai hyn olygu bod mwy o ddysgwyr yn ailsefyll eu harholiadau TGAU.

Effeithiau anghymesur ar ddysgwyr

Roedd rhai a gafodd eu holi wedi dweud nad oeddent yn rhagweld y gallai cyfuno'r ddwy radd effeithio ar rai dysgwyr yn fwy nag eraill. Fodd bynnag, roedd eraill o'r farn:

- y gallai cyfuno'r ddwy radd fod o anfantais i ddysgwyr sydd ar drothwy gradd E, oherwydd y byddant yn cwmpo i waelod graddfa'r radd
- gallai dysgwyr sydd angen cefnogaeth ychwanegol a dull addysgu wedi'i deilwra gael eu hanwybyddu am y byddent yn mynd 'ar goll' yn y radd gyfunol newydd
- mae'n debygol y bydd dysgwyr sydd â nodweddion gwarchoddedig, o gefndiroedd socio-economaidd mwy difreintiedig neu'r rhai gydag anghenion dysgu ychwanegol yn teimlo effeithiau cyfuno'r ddwy radd

Datblygiad ar ôl AB

Roedd y rhan fwyaf o'r bobl a gafodd eu holi wedi dweud nad ydynt yn rhagweld unrhyw effeithiau ar ddatblygiad dysgwyr ar ôl gorffen AB, am mai AB yw'r unig ddarparwr sy'n ystyried graddau sydd o dan ffin gradd D. Roedd eraill wedi nodi y byddai llwybrau datblygu yn cael eu heffeithio os na fydd dysgwyr yn cael gradd C mewn pwnc TGAU am fod hyn yn cael ei ystyried fel y man cychwyn i ddatblygu ymhellach ar lwybrau gwahanol, yn benodol ar gyfer rhaglenni addysg uwch (AU). Fodd bynnag, roedd y cyfranogwyr o'r farn na fyddai'r mater hwn yn berthnasol i ddysgwyr sy'n ennill graddau F a G.

Newid ehangach

Gofynnwyd i gyfranogwyr hefyd a ddylid cyfuno graddau lefel un ymhellach. Roedd y rhan fwyaf yn cynnig na ddylid cyfuno graddau D ac E, am fod gwahaniaeth amlwg rhyngddynt, ac am eu bod yn cael eu defnyddio mewn ffyrdd gwahanol. Er enghraifft, mae graddau D ac E yn cael eu

gweld yn hanfodol er mwyn nodi pa ddysgwyr y dylai ailsefyll eu TGAU, a pha raglen ailsefyll y dylent ei dilyn.

Wrth ystyried a oes angen cyflwyno newid ehangach i raddfa graddio TGAU, roedd rhai o'r farn nad oes angen newid. Dyma rai o'r rhesymau:

- mae'r raddfa yn ei ffurf bresennol yn glir iawn
- mae rhanddeiliaid yn adnabod y raddfa bresennol dda ac yn gweld gwerth iddi
- mae'r raddfa wedi'i gwreiddio'n dda ar draws y system addysg

Roedd eraill wedi nodi y byddai diwygio'r raddfa yn cael ei groesawu, ond roedd yr awgrymiadau ymarferol i roi'r newid ar waith yn amrywiol. Roedd rhai wedi awgrymu y dylid lleihau'r raddfa, am ei fod yn rhy wahaniaethol ar hyn o bryd neu oherwydd nid yw graddau lefel un yn cael eu hystyried yn werthfawr iawn. Roedd un cyfranogwr wedi cynnig cynnal nifer y graddau ond ail-enwi'r cymwysterau lefel un gan ddefnyddio'r model 'pàs, teilyngdod, anrhydedd'. Roedd un arall wedi dweud, ar y llaw arall, y dylid cynyddu nifer y graddau lefel dau i wahaniaethu ymhellach rhwng dysgwyr.

Yn olaf, roedd rhai o'r cyfranogwyr wedi cynnig awgrymiadau ehangach, fel datblygu graddfa graddio unedig i gwmpasu lefel un i dri, neu sicrhau mwy o gysondeb rhwng Cymru a Lloegr wrth raddio. Roedd rhai wedi dod i'r casgliad bod y drafodaeth yn amlygu'r angen i gael cynnig gwahanol mewn ysgolion, am nad yw cofrestru dysgwyr sydd â gallu is yn diwallu'u hanghenion.

Cyfeiriadau

Llywodraeth Cymru (2021) *Ymgeisiadau a chanlyniadau TGAU (disgyblion ym mlwyddyn 11/disgyblion 15 oed) fesul grŵp pwnc* Ar gael yn:

<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-4/gcseentriesandresultspupilsaged15only-by-subjectgroup> <<https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-4/gcseentriesandresultspupilsaged15only-by-subjectgroup>> (Cyrchwyd 13/06/2022).